# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Biliau Diwygio

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1, Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 21 Mawrth 2024

Amser: 09.30 - 10.44

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13794

# Hybrid

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | David Rees AS (Cadeirydd)<br>Heledd Fychan AS<br>Sarah Murphy AS<br>James Evans AS<br>Jane Dodds AS |
| Tystion: | Colin Everett, Cadeirydd, Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru<br>Clare Sim, Rheolwr Cymorth a Chyngor Aelodau, Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol<br>Catherine Uphill, Rheolwr, Comisiwn Etholiadol Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Helen Finlayson (Clerc)<br>Georgina Owen (Ail Glerc)<br>Catherine Roberts (Dirprwy Glerc)<br>Rhayna Mann (Swyddog)<br>Josh Hayman (Ymchwilydd)<br>Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Claire Thomas (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Cafwyd ymddiheuriadau gan Darren Millar AS. Dirprwyodd James Evans AS ar ei ran.

Croesawodd y Cadeirydd Jane Dodds AS, a oedd yn bresennol yn unol â Rheol Sefydlog 17.49.

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant.

## 2 Papurau i'w nodi

### 2.1 Llythyr gan y Llywydd ynghylch Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) – 15 Mawrth 2024

Nododd y Pwyllgor y llythyr.

## 3 Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol): Sesiwn dystiolaeth gyda gweinyddwyr etholiadol

Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Fwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru, Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol a Chomisiwn Etholiadol Cymru.

Cytunodd y tystion i ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig ar y canlynol:

- barn ar yr amserlen a ffefrir ar gyfer etholiadau'r Senedd
- ymgysylltu a gynhaliwyd â phleidiau gwleidyddol nad ydynt yn cael eu cynrychioli ar Banel Pleidiau Gwleidyddol y Senedd
- barn ar newidiadau i ganllawiau deisebau etholiadol yng ngoleuni'r mesurau yn y Bil
- barn ar yr arwydd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol na fydd gwneud datganiad ffug ar rywedd ymgeisydd yn rhan o'r drosedd arfer llwgr sy'n gymwys i ddarparu datganiadau ffug mewn enwebiad a phapurau eraill

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Cytunodd y Pwyllgor â'r cynnig.

## 5 Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol): Trafod y dystiolaeth

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd.

## 6 Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol): y dull o graffu yng Nghyfnod 1

Trafododd y Pwyllgor y dull craffu a chytunodd arno.